# Ugain Copi yn Unig . . .

Ar ddechrau mis Medi 1904, cynhaliwyd yng Nghaernarfon Ail Gyngres y *Pan-Celtic Association* a sefydlwyd yn Nulyn yn 1898. Os gallwn gredu adroddiadau'r wasg, roedd yr achlysur yn llwyddiant ysgubol gyda thros ddau gant o Albanwyr, Cernywiaid, Gwyddelod, Llydawyr a thrigolion Ynys Manaw yn



*Frederick Robertson Williams o Dal-y-bont.*

bresennol, a thros ddau gant o Gymry wedi llifo yno o bob cwr o'r wlad. Addurnwyd pob stryd â symbolau Cymreig a Cheltaidd. Gwyliwyd prosesiynau a seremonïau lliwgar y 'Celtiaid', a mynychwyd eu cyngherddau gan filoedd o drigolion yr ardal. Daeth hyd yn oed Lloyd George o Lundain i fod yn bresennol yn un o'r cyngherddau nos.

Yn ffodus i haneswyr y gwledydd Celtaidd, yn enwedig haneswyr â diddordeb mewn celf, mae set o luniau wedi goroesi sy'n rhoi i ni flas o ysblander yr achlysur. John Wickens, ffotograffydd y pery cof amdano yn yr ardal a oedd yn berchen ar ddau stiwdio ym Mangor, a fu'n gyfrifol am hyn. Roedd yn hoff o dynnu lluniau y tu allan i'w stiwdio. Mae rhai ohonynt megis 'Ceirw Plas Vaynol' (Llyfrgell Genedlaethol Cymru) a 'Trem dros Afon Menai' (Royal Photographic Society, Bath) yn adnabyddus hyd heddiw. Ef a dynnodd luniau o seremonïau Eisteddfod Genedlaethol Bangor yn 1902 a Chaernarfon yn 1906. Yn 1904, canolbwyntiodd ar arweinwyr ac artistiaid y mudiad Celtaidd mewn gwisgoedd Celtaidd. Cedwir tua deg ar hugain o negatifau gwydr yng nghasgliad Wickens yn Archifdy Caernarfon a thros ddeg ar hugain o brintiau du a gwyn mewn pedwar llyfr ffoto.

Mae pob un o'r llyfrau hynny'n cynnwys rhwng deuddeg ac ugain o luniau a dynnwyd gan Wickens yn ystod y Gyngres Geltaidd. Tynnwyd fy sylw at y llyfr gyntaf gan Dr



*Madame Ange Mosher o Lydaw.*

Ceridwen Lloyd-Morgan o Adran Llawysgrifau Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Copi'r bardd a chenedlaetholwr o Lydaw, Francois Jaffrennou, neu 'Taldir', oedd hwn. Darganfûm ail gopi yn adran Mapiau a Phrintiau'r Llyfrgell yn fuan wedyn. Gyda help curadur Amgueddfa Bangor, Pat West, daethpwyd o hyd i ddau lyfr arall: copi anrheg i'r Arglwydd Castletown of Upper Ossory yn Amgueddfa Bangor, a chopi o eiddo Gwyneth Vaughan yn Archifdy Caernarfon.

Ar dudalen flaen y llyfr ffoto cyntaf a ddarganfûm, sef copi Francois Jaffrennou, gwelir y llinellau a ganlyn yn llaw John Wickens ei hun:

> *This Album, whose twenty copies only were published by Wickens Studios, Bangor shows the prominent figures and the sumptuous gatherings of the 2[d] Pan-Celtic Congress held in Caernarvon in 1904.*

Gwyddom, felly, fod y ffotograffydd wedi casglu lluniau mewn ugain llyfr ffoto, i'w gwerthu neu eu dosbarthu yng Nghymru a'r gwledydd Celtaidd. Cynhwysai pob un luniau o bobl mewn gwisgoedd Celtaidd. Gwelir, er enghraifft, 'Taldir' mewn gwisg Lydewig, cantoresau a thelynoresau Gwyddelig mewn gwisgoedd o Iwerddon, a thelynorion o Lys Llanofer mewn gwisgoedd Cymreig. Cynhwysai'r llyfrau hefyd luniau o'r seremonïau a gynhaliwyd yn ystod y Gyngres, megis yr un a welir isod, gyda llu o bobl yn ymgynnull ger y Maen Llog, cerflun a oedd yn symbol o'r chwe gwlad Geltaidd.

Hyd yn hyn, dim ond pedwar o'r ugain llyfr ffoto sydd wedi dod i'r golwg, a'r rheiny i gyd yng Nghymru. Nid yw ymchwil y tu allan i Gymru wedi bod yn llwyddiannus. Byddai'n hyfryd petai mwy o gopïau yn dod i'r golwg er mwyn dilyn eu hanes ac er mwyn darganfod lluniau newydd o aelodau mudiad Pan-Geltaidd ar droad y ganrif.

MARION LÖFFLER



*Cynrychiolwyr o'r gwledydd Celtaidd yn ystod un o seremonïau'r Gyngres.*